

BRO DWYNWEN 20/04/2025
Dydd y Pasg – Easter Day

Colect 6o

Arglwydd pob bywyd a nerth, gorchfygaist hen drefn pechod a marwolaeth drwy atgyfodiad nerthol dy Fab er mwyn gwneud pob peth yn newydd ynddo ef: caniatâ i ni, sy'n farw i bechod, ac yn fyw i ti yn Iesu Grist, deyrnasu gydag ef mewn gogoniant; bydded iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân glod a moliant, gogoniant a gallu, yn awr ac yn dragwyddol.

Collect 6o

Lord of all life and power, who through the mighty resurrection of your Son overcame the old order of sin and death to make all things new in him: grant that we, being dead to sin and alive to you in Jesus Christ, may reign with him in glory; to whom with you and the Holy Spirit be praise and honour, glory and might, now and in all eternity.

Eseia 65:17-25

Achos dw i'n mynd i greu nefoedd newydd a daear newydd! Bydd pethau'r gorffennol wedi'u hanghofio; fyddan nhw ddim yn croesi'r meddwl. Ie, dathlwch a mwynhau am byth yr hyn dw i'n mynd i'w greu. Achos dw i'n mynd i greu Jerwsalem i fod yn hyfrydwch, a'i phobl yn rheswm i ddathlu. Bydd Jerwsalem yn hyfrydwch i mi, a'm pobl yn gwneud i mi ddathlu. Fydd sŵn crio a sgrechian ddim i'w glywed yno byth eto. Fydd babis bach ddim yn marw'n ifanc, na phobl mewn oed yn marw'n gynnar. Bydd rhywun sy'n marw yn gant oed yn cael ei ystyried yn llanc ifanc, a'r un sy'n marw heb gyrraedd y cant yn cael ei ystyried dan felltith. Byddan nhw'n adeiladu tai ac yn byw ynddyn nhw; byddan nhw'n plannu gwinllannoedd ac yn bwyta'u ffrwyth. Fyddan nhw ddim yn adeiladu tai i rywun arall fyw ynddyn nhw, nac yn plannu i rywun arall fwyta'r ffrwyth. Bydd fy mhobl yn byw mor hir â choeden; bydd y rhai dw i wedi'u dewis yn cael mwynhau'n llawn waith eu dwylo. Fyddan nhw ddim yn gweithio'n galed i ddim byd; fyddan nhw ddim yn magu plant i'w colli.

Byddan nhw'n bobl wedi'u bendithio gan yr ARGLWYDD, a'u plant gyda nhw hefyd. Bydda i'n ateb cyn iddyn nhw alw arna i; bydda i wedi clywed cyn iddyn nhw orffen siarad. Bydd y blaidd a'r oen yn pori gyda'i gilydd, a bydd y llew yn bwyta gwellt fel ych; ond llwch y ddaear fydd bwyd y neidr. Fyddan nhw'n gwneud dim drwg na niwed yn fy mynydd cysegredig i." —yr ARGLWYDD sy'n dweud hyn.

Isaiah 65. 17-25

For I am about to create new heavens and a new earth; the former things shall not be remembered or come to mind. But be glad and rejoice for ever in what I am creating; for I am about to create Jerusalem as a joy, and its people as a delight. I will rejoice in Jerusalem, and delight in my people; no more shall the sound of weeping be heard in it, or the cry of distress. No more shall there be in it an infant that lives but a few days, or an old person who does not live out a lifetime; for one who dies at a hundred years will be considered a youth, and one who falls short of a hundred will be considered accursed. They shall build houses and inhabit them; they shall plant vineyards and eat their fruit. They shall not build and another inhabit; they shall not plant and another eat; for like the days of a tree shall the days of my people be, and my chosen shall long enjoy the work of their hands. They shall not labour in vain, or bear children for calamity; for they shall be offspring blessed by the Lord - and their descendants as well. Before they call I will answer, while they are yet speaking I will hear. The wolf and the lamb shall feed together, the lion shall eat straw like the ox; but the serpent - its food shall be dust! They shall not hurt or destroy on all my holy mountain, says the Lord.

Salm 118. [1, 2,] 14-24

[1,2]

Diolchwch i'r ARGLWYDD, oherwydd da yw, ac y mae ei gariad hyd byth. Dywedwed Israel yn awr, "Y mae ei gariad hyd byth."

14-24

Yr ARGLWYDD yw fy nerth a'm cân, ac ef yw'r un a'm hachubodd. Clywch gân gwaredigaeth ym mhebyll y rhai cyfiawn: "Y mae deheulaw'r ARGLWYDD yn gweithredu'n rymus; y mae deheulaw'r ARGLWYDD wedi ei chodi; y mae deheulaw'r ARGLWYDD yn gweithredu'n rymus." Nid marw ond byw fyddaf, ac adroddaf am weithredoedd yr ARGLWYDD. Disgyblodd yr ARGLWYDD fi'n llym, ond ni roddodd fi yn nwylo marwolaeth. Agorwch byrth cyfiawnder i mi; dof finnau i mewn a diolch i'r ARGLWYDD. Dyma borth yr ARGLWYDD; y cyfiawn a ddaw i mewn drwyddo. Diolchaf i ti am fy ngwrando a dod yn waredigaeth i mi. Y maen a wrthododd yr adeiladwyr a ddaeth yn brif gonglfaen. Gwaith yr ARGLWYDD yw hyn, ac y mae'n rhyfeddod yn ein golwg. Dyma'r dydd y gweithredodd yr ARGLWYDD; gorfoleddwn a llawenhawn ynddo.

Psalm 118. [1, 2,] 14-24

[1,2]

O give thanks to the Lord, for he is good; his steadfast love endures for ever! Let Israel say, 'His steadfast love endures for ever.'

14-24

The Lord is my strength and my might; he has become my salvation. There are glad songs of victory in the tents of the righteous: 'The right hand of the Lord does valiantly; the right hand of the Lord is exalted; the right hand of the Lord does valiantly.' I shall not die, but I shall live, and recount the deeds of the Lord. The Lord has punished me severely, but he did not give me over to death. Open to me the gates of righteousness, that I may enter through them and give thanks to the Lord. This is the gate of the Lord; the righteous shall enter through it. I thank you that you have answered me and have become my salvation. The stone that the builders rejected has become the chief cornerstone. This is the Lord's doing; it is marvellous in our eyes. This is the day that the Lord has made; let us rejoice and be glad in it.

Actau 10. 34-43

A dechreuodd Pedr lefaru: "Ar fy ngwir," meddai, "'rwy'n deall nad yw Duw yn dangos ffafriaeth, ond bod y sawl ym mhob cenedl sy'n ei ofni ac yn gweithredu cyfiawnder yn dderbyniol ganddo ef. Y gair hwn a anfonodd i blant Israel, gan gyhoeddi Efengyl tangnefedd drwy Iesu Grist; ef yw Arglwydd pawb. Gwyddoch chwi'r peth a fu drwy holl Jwdea, gan ddechrau yng Ngalilea wedi'r bedydd a gyhoeddodd Ioan - Iesu o Nasareth, y modd yr eneiniodd Duw ef â'r Ysbryd Glân ac â nerth. Aeth ef oddi amgylch gan wneud daioni ac iacháu pawb oedd dan ormes y diafol, am fod Duw gydag ef. Ac yr ydym ni'n dystion o'r holl bethau a wnaeth yng ngwlad yr Iddewon ac yn Jerwsalem. A lladdasant ef, gan ei grogi ar bren. Ond cyfododd Duw ef ar y trydydd dydd, a pheri iddo ddod yn weledig, nid i'r holl bobl, ond i dystion oedd wedi eu rhagethol gan Dduw, sef i ni, y rhai a fu'n cydfwyta ac yn cydyfed ag ef wedi iddo atgyfodi oddi wrth y meirw. Gorchmynnodd i ni bregethu i'r bobl, a thystiolaethu mai hwn yw'r un a benodwyd gan Dduw yn farnwr y byw a'r meirw. I hwn y mae'r holl broffwydi'n tystio, y bydd pawb sy'n credu ynddo ef yn derbyn maddeuant pechodau trwy ei enw."

Acts 10. 34-43

Then Peter began to speak to them: 'I truly understand that God shows no partiality, but in every nation anyone who fears him and does what is right is acceptable to him. You know the message he sent to the people of Israel, preaching peace by Jesus Christ - he is Lord of all. That message spread

throughout Judea, beginning in Galilee after the baptism that John announced: how God anointed Jesus of Nazareth with the Holy Spirit and with power; how he went about doing good and healing all who were oppressed by the devil, for God was with him. We are witnesses to all that he did both in Judea and in Jerusalem. They put him to death by hanging him on a tree; but God raised him on the third day and allowed him to appear, not to all the people but to us who were chosen by God as witnesses, and who ate and drank with him after he rose from the dead. He commanded us to preach to the people and to testify that he is the one ordained by God as judge of the living and the dead. All the prophets testify about him that everyone who believes in him receives forgiveness of sins through his name.'

Luc 24. 1-12

Ar y dydd cyntaf o'r wythnos, ar doriad gwawr, daethant at y bedd gan ddwyn y peraroglau yr oeddent wedi eu paratoi. Cawsant y maen wedi ei dreiglo i ffwrdd oddi wrth y bedd, ond pan aethant i mewn ni chawsant gorff yr Arglwydd Iesu. Yna, a hwythau mewn penbleth ynglŷn â hyn, dyma ddau ddyn yn ymddangos iddynt mewn gwisgoedd llachar. Daeth ofn arnynt, a phlygasant eu hwynebau tua'r ddaear. Meddai'r dynion wrthynt, "Pam yr ydych yn ceisio ymhlith y meirw yr hwn sy'n fyw? Nid yw ef yma; y mae wedi ei gyfodi. Cofiwch fel y llefarodd wrthyich tra oedd eto yng Ngalilea, gan ddweud ei bod yn rhaid i Fab y Dyn gael ei draddodi i ddwylo pechaduriaid, a'i groeshoelio, a'r trydydd dydd atgyfodi." A daeth ei eiriau ef i'w cof. Dychwelsant o'r bedd, ac adrodd yr holl bethau hyn wrth yr un ar ddeg ac wrth y lleill i gyd.

Mair Magdalen a Joanna a Mair mam Iago oedd y gwraedd hyn; a'r un pethau a ddywedodd y gwraedd eraill hefyd, oedd gyda hwy, wrth yr apostolion. Ond i'w tyb hwy, lol oedd yr hanesion hyn, a gwrthodasant gredu'r gwraedd. Ond cododd Pedr a rhedeg at y bedd; plygodd i edrych, ac ni welodd ddim ond y lliainiau. Ac aeth ymaith, gan ryfeddu wrtho'i hun at yr hyn oedd wedi digwydd.

Luke 24. 1-12

But on the first day of the week, at early dawn, they came to the tomb, taking the spices that they had prepared. They found the stone rolled away from the tomb,³but when they went in, they did not find the body. While they were perplexed about this, suddenly two men in dazzling clothes stood beside them. The women were terrified and bowed their faces to the ground, but the men said to them, 'Why do you look for the living among the dead? He is not here, but has risen. Remember how he told you, while he was still in Galilee, that the Son of Man must be handed over to sinners, and be crucified, and on

the third day rise again.' Then they remembered his words, and returning from the tomb, they told all this to the eleven and to all the rest.

Now it was Mary Magdalene, Joanna, Mary the mother of James, and the other women with them who told this to the apostles. But these words seemed to them an idle tale, and they did not believe them. But Peter got up and ran to the tomb; stooping and looking in, he saw the linen cloths by themselves; then he went home, amazed at what had happened.

Ôl Gymun 61

Fywiol Dduw, a roddaist dy unig-anedig Fab i farw ar y groes er ein prynedigaeth, a thrwy ei atgyfodiad gogoneddus a'n gwardodd ni oddi wrth allu'r gelyn: dyro inni felly farw beunydd i bechod, fel y byddwn fyw mwyach gydag ef yn llawenydd ei fywyd atgyfodedig; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Post Communion Prayer 61

Living God, who for our redemption gave your only-begotten Son to the death of the cross, and by his glorious resurrection have delivered us from the power of our enemy: grant us so to die daily to sin, that we may evermore live with him in the joy of his risen life; through Jesus Christ our Lord.